# Balchder Bro?

## Adroddiad canfyddiadau







**Anne Collis, Bryan Collis, Louisa Huxtable-Thomas Mehefin 2023**

PinkGold

Barod 10th

***Comisiynwyd gan***

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
Faculty of Humanities and Social Sciences

***Ariannwyd gan***

Wales Innovation Network
Rhwydwaith Arloesi Cymru

# Beth sydd yn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:

- Cyflwyniad byr i'r prosiect Balchder Bro (Cyflwyniad, tudalen 3)
- Gwybodaeth am drefn y prosiect, gan gynnwys sut bu pobl o gymunedau de-orllewin Cymru yn cymryd rhan yn y prosiect (tudalennau 4-8)
- Cyfres o straeon a chynigion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i helpu i ddeall Balchder Bro yn ne-orllewin Cymru (tudalennau 9-20)
- Pum map cysyniad sy'n crynhoi themâu allweddol Balchder Bro yn ne-orllewin Cymru (tudalennau 21-31)
- Rhai casgliadau ynghylch beth i'w wneud nesaf a sut y gallai hyn effeithio ar bolisi (tudalennau 32-35)
- Tystiolaeth ychwanegol (tudalennau 36-40)

# Cyflwyniad

Mae Balchder Bro? yn adrodd ar ganfyddiadau ymarferiad gwrando cymunedol yn ne-orllewin Cymru. Cynhaliwyd y gwrando cymunedol ym mis Medi/Hydref 2022, gyda digwyddiad cydgynhyrchu hybrid (wyneb yn wyneb ac ar-lein) ym mis Tachwedd i ystyried y canfyddiadau cychwynnol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ddysgwyd o'r gwrando cymunedol a'r gynhadledd.

Amcan y prosiect oedd cynnig dealltwriaeth i ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe o bryderon gwirioneddol pobl yng nghymunedau de-orllewin Cymru. Y nod oedd annog pobl nad ydyn nhw fel arfer yn gweithio gyda'r Brifysgol i rannu eu barn am eu bro gydag ymchwilwyr, a beth fyddai'n helpu i hybu balchder yn eu cymdogaethau.

# Defnyddio'r adroddiad

Mae canfyddiadau'r prosiect mewn dau fformat: 'straeon' a 'mapiau cysyniad'.
**Straeon:** Mae'r awduron wedi creu 12 stori gyfansawdd, gan gyfuno dyfyniadau gair am air gan wahanol gyfranogwyr, a'u priodoli i unigolion dychmygol. Mae'r dechneg hon yn rhoi 'llais' cryf i'r cyfranogwyr. Mae holl nodweddion unigolyn dychmygol yn perthyn i un neu fwy o'r cyfranogwyr go iawn. Mae pob stori'n cael ei hategu gan argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer ein pedair cynulleidfa:

- pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru
- llunwyr polisi a chyllidwyr, fel arfer o awdurdodau lleol
- pobl sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n gweithio gyda chymunedau (gweithredwyr), o amrywiaeth o sectorau
- academyddion sy'n gweithio mewn prifysgolion.

*Os na nodir hynny gan lythrennau italig, mae'r nodiadau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol i gyd yn tarddu o eiriau cyfranogwyr penodol. Ychwanegwyd nodiadau mewn llythrennau italig gan yr awduron.*

**Mapiau Cysyniad:** Mae'r pum map cysyniad yn dangos y themâu allweddol o bob rhan o'r ymarferiad gwrando cymunedol a'r gynhadledd gydgynhyrchu. Mae'r rhain yn nodi meysydd sydd angen eu harchwilio gan ddefnyddio dulliau sydd wedi'u cynllunio i greu'r wybodaeth gadarn, leol a manwl sy'n angenrheidiol ar gyfer llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

# Beth wnaethom ni

Defnyddiodd y gwrando cymunedol ddull newydd, PLACE. Cynlluniwyd PLACE i gynnal gwaith rhagolwg democrataidd ac i fynd i'r afael â materion sy'n fwyaf dealladwy fel systemau addasol cymhleth. I grynhoi, mae PLACE yn ymwneud â'r canlynol:


- TiG, ffordd dryloyw a seiliedig ar dystiolaeth o benderfynu pwy i'w gwahodd i gymryd rhan, fel arfer yn cynnwys (fel yn yr achos hwn) Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth
- dull o wrando sy'n caniatáu i bobl siarad ar eu telerau eu hunain yn hytrach nag ymateb i gwestiynau
- dull 'dadansoddi dwbl' sy'n dechrau gyda dadansoddiad thematig atblygol ac yna ail ddadansoddiad yn ymwneud â'r cwestiynau penodol neu bynciau o ddiddordeb a ddarparwyd gan yr unigolyn a gomisiynodd y gwrando cymunedol
- cyflwyno'r canfyddiadau i grŵp cymysg o randdeiliaid mewn digwyddiad cydgynhyrchu
- ymrwymiad i adrodd i gyfranogwyr am yr hyn a ddysgwyd.

Mae PLACE yn cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad cydymaith: Community Listening, a Methodology.

Yn ogystal, cynhyrchwyd ffilm gyda rhai o'r cyfranogwyr, sydd ar gael ar-lein yn https://app.frame.io/v/6dfc257d-6572-484f-9f1b-f2e218186280


Community Listening Event
1 item
The researchers really found a lot of very searching answers
very good answers from people across the Southwest Wales region.

# Cymryd rhan yn y gwaith cychwynnol





Roedd tair ffordd o gymryd rhan:

- sgwrs anffurfiol wyneb yn wyneb gyda'r unigolyn yn dewis yr amser a'r lle
- un o'r tîm yn mynychu digwyddiad galw heibio, cyfarfod neu grŵp a oedd eisoes wedi'i drefnu
- cwblhau arolwg.

Nid yw'r arolwg yn rhan o'r dull PLACE, ond roedd yn gyfle i'r rhai na ddewiswyd drwy TiG allu cyfrannu. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd neb yn cael ei eithrio'n fwriadol rhag gallu lleisio barn.

Mae'r ddynoliaeth yn cwmpasu amryw o gyd-destunau, cefndiroedd a straeon personol a chymunedol. Roeddem ni eisiau gwrando ar yr ystod ehangaf bosibl o bobl. Awgrymodd yr Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth fod 15 nodwedd yn debygol o effeithio ar sut roedd pobl yn teimlo am eu bro. Defnyddiwyd y rhain i greu TiG pwrpasol i bennu pwy fyddai'n cymryd rhan.

Gan ddefnyddio TiG i arwain y recriwtio, trefnwyd cyfanswm o 67 o sgyrsiau, ynghyd ag ymweliadau ag 11 grŵp, a hynny mewn cymunedau amrywiol ledled de-orllewin Cymru. Ym mhob sir, dewiswyd cymdogaethau cynrychioliadol i ymgysylltu â nhw – mae eu henwau i'w gweld ar ochr dde'r dudalen. Roedd grŵp mwy o gyfranogwyr hefyd, a oedd yn fyfyrwyr rhyngwladol. Yn ogystal, cyfrannodd 71 o bobl eraill drwy'r arolwg.






## Swansea

18 Individuals

5 Groups

415 Items of data

## International students

11 Individuals

0 Groups

341 Items of data

## Neath Port Talbot

12 Individuals

3 Groups

296 Items of data

St Helens
City Centre
Bonymaen
Brynmill
Pontarddulais
Gorseinon
Clais
Waunarlywdd
Morriston
Sketty
Uplands
Gower
Clydach

Seven Sisters
Neath
Jersey Marine
Aberavon
Sandfields
Port Talbot

## Y digwyddiad cydgynhyrchu

Roedd 28 o gyfranogwyr (saith yn ymuno o bell, 21 yn ymuno yn bersonol), ynghyd â dau arweinydd (Bryan Collis ac Anne Collis), cyfieithydd a dau wneuthurwr ffilmiau o Stori Cymru. Sicrhawyd bod y digwyddiad yn hygyrch i bobl ag anableddau dysgu a phobl ag amhariadau corfforol, ac roedd cymorth i fynychu yn cael ei gynnig yn ôl yr angen.

Daeth y cyfranogwyr o bedair cynulleidfa darged: pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru; llunwyr polisi a chyllidwyr; pobl sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n gweithio gyda chymunedau (gweithredwyr); ac academyddion. Roedd y cyfranogwyr yn dod o bob un o'r pedair ardal awdurdod lleol. Gwrandawodd y cyfranogwyr ar gyflwyniad ar y canfyddiadau interim, cyn treulio amser mewn un o bedwar gweithdy gyda chynrychiolaeth o'r bedair cynulleidfa. Bu'r gweithdai hyn yn trafod ac yn ychwanegu at y canfyddiadau, gan flaenoriaethu tri mater i fod yn destun gwaith pellach. Wedi hynny, trafodwyd y camau cyntaf i wneud rhywbeth ynghylch un o'r materion a nodwyd yn y gweithdy cyntaf.

Cafodd nodiadau'r gweithdy eu teipio a'u gwirio yn erbyn y canfyddiadau gwreiddiol am wybodaeth ychwanegol neu wahanol.

## Creu'r straeon

Mae'r straeon yn dod â'r canfyddiadau yn fyw. Adolygwyd y canfyddiadau a nodwyd 12 pwnc allweddol ar gyfer creu'r straeon. Ystyriodd yr adolygiad gryfder teimladau'r cyfranogwyr, yr arwyddocâd i wasanaethau cyhoeddus wrth iddyn nhw geisio gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a/neu'r agenda Ffyniant Bro a maint y data. Mae pob stori yn cynnwys cymaint o ddata air am air ag sy'n bosibl, wedi'i grynhoi o fwy nag un sgwrs. Mae'n cael ei blethu i greu stori ddychmygol sy'n cael ei phriodoli i gymeriad dychmygol. Mae pob cymeriad dychmygol yn gyfuniad o gyfranogwyr dilys, gan bwyso ar nodweddion demograffig arwyddocaol. Yn eu crynswth, mae'r straeon a'r cymeriadau yn cynnig cynrychiolaeth deg o'r canfyddiadau. Mae nodiadau sy'n cyd-fynd â'r straeon hyn yn cynnig arweiniad i gymunedau, llunwyr polisïau, academyddion a gweithwyr rheng flaen a gwirfoddolwyr, neu'r 'gweithredwyr'.

## Creu'r mapiau cysyniad

Mae'n bosibl dirnad y canfyddiadau yn eu cyfanrwydd yn nhermau pum cysyniad: perthynas, bro, gwasanaethau, yr economi a phersonol. Mae map ar gyfer pob un o'r cysyniadau hyn sy'n dangos agweddau cyfranogwyr tuag atynt.

# Y straeon

Mae'r holl wybodaeth yn y straeon yn adlewyrchu barn a chyfraniadau cyfranogwyr. Daw'r nodiadau o ddadansoddiad o gyfraniadau'r cyfranogwyr **ac eithrio** nodiadau mewn llythrennau italig sydd wedi cael eu hychwanegu fel awgrymiadau neu argymhellion gan awduron yr adroddiad yn seiliedig ar eu hymarfer a'u harbenigedd academaidd.

## Stori Joe: Ymddygiad gwrthgymdeithasol

"Mae'r plant yn ofnadwy, yn torri pethau a gollwng sbwriel. Mae 'na gangiau ohonyn nhw'n hongian o gwmpas y dref yn y prynhawn a min nos. Mae'r criw yn eu harddegau yn hongian o gwmpas y lôn gefn yn yfed, smocio a thaflu brics. Dwi wedi'u gweld nhw'n smocio 'weed' yn y parc. Dydw i ddim yn teimlo'n gyfforddus nac yn saff y tu allan yn y nos. Maen nhw'n gallu bod yn fygythiol.

Fe wnaeth rhywun daflu wyau at gar fy nghymydog. Does dim balchder yma. Mae pobl yn goryrru ar y ffordd ac yn parcio ar y palmentydd. Mae'r toiledau wedi cael eu fandaleiddio ac mae gwydr ar y traeth. Mae pobl yn gadael i'w cŵn wneud eu busnes ar hyd y lle, ac fe ges i lond pen pan wnes i ddweud rhywbeth."

### Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru

Mae rhai o broblemau Joe, fel baw cŵn, taflu sbwriel a goryrru, yn gyson ledled y rhanbarth. Mae rhai yn effeithio ar rannau o'r rhanbarth yn unig, yn aml dim ond un neu ddwy stryd mewn tref neu ddinas. Mae profiadau Joe yn ymddangos yn eithafol, ond dyma yw profiad beunyddiol rhai pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru.

Os yw'r problemau hyn yn effeithio arnoch chi, rhowch wybod i'r heddlu a'ch cynghorydd lleol.

### Llunwyr polisi a chyllidwyr

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith negyddol ar fywydau pobl. Fel rhanbarth, mae angen i ni fynd i'r afael â'r achosion, nid dim ond y symptomau. *Mae hyn yn golygu treulio amser yn gwrando ar bobl, gan gynnwys y bobl sy'n achosi problemau Joe, i ddeall beth sydd wrth wraidd y symptomau hyn. Cyn cyllido unrhyw ymyrraeth, mae angen gwirio am ganlyniadau anfwriadol posibl drwy ddewis ystod o bobl yn ofalus i holi eu barn am yr hyn fydd yn digwydd os bydd yr ymyrraeth honno'n mynd rhagddi.*

### Gweithredwyr

Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw un o'r pethau pennaf sy'n tanseilio balchder yn eich ardal. *Os ydych chi ar y rheng flaen, rydych chi bron yn sicr yn meddu ar wybodaeth werthfawr y mae angen i lunwyr polisïau ei chlywed. Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol i chi rannu'r wybodaeth honno?*

### Academyddion

Blaenoriaeth ymchwil: Sut mae mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc yn effeithiol?

*Mae gan Joe, 35, anableddau dysgu ac mae'n byw mewn tŷ yng nghanol tref.*

A oes ymchwil a allai nodi'r achosion? A oes tystiolaeth eisoes am ba waith fyddai'n gallu cael ei rannu'n lleol? A oes angen ymchwil newydd?

## Stori Sian: Diffyg cymeriad yn yr ardal leol

"Mae'n iawn lle dwi'n byw, ond fe allai fod yn unrhyw le. Does dim cymeriad, dim byd i fod yn falch ohono, dim byd sy'n gwneud cymuned go iawn. Gallai'r tai fod yn unrhyw le. Does dim tîm rygbi lleol. Mae'r unig dafarn sy'n dal ar agor yn perthyn i gadwyn. Mae hyd yn oed y siopau'n ddi-ddim, y math chi'n gweld ym mhobman. Dwi'n gweld colli le roeddwn i'n arfer byw. Roedd yn gymuned glos, braidd yn annymunol mewn mannau, ond roedd 'na deimlad o hunaniaeth go iawn. Roedden ni'n gwybod pwy oedden ni."

*Sian, 30au, trefol, sengl a di-waith*.

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae'n llawer haws teimlo'n falch o'ch bro os oes ganddi ei hunaniaeth a'i chymeriad ei hun. *Oes yna ffyrdd o ailddechrau digwyddiadau traddodiadol lleol neu greu rhai newydd?*

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Mae siopau a thafarnau annibynnol a thimau chwaraeon lleol yn helpu i greu ymdeimlad o hunaniaeth a chymuned. A oes ffyrdd o gefnogi hynny? Er enghraifft, a oes ffyrdd o ddileu rhai o'r rhwystrau i bobl leol weithio gyda'i gilydd neu'n unigol i agor siopau a thafarnau annibynnol?

Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr yn meddwl yn nhermau rhanbarth Bae Abertawe na de-orllewin Cymru. Bron yn ddiwahân, roedden nhw'n sôn am eu hunaniaeth fel rhywbeth sydd wedi'i wreiddio yn eu bro hyperleol (e.e. Bôn-y-maen, nid Abertawe), eu tîm chwaraeon (e.e. y Scarlets) neu yn y ffaith eu bod nhw'n Gymry. Goblygiad hynny, o ran ymgysylltiad pobl ag ymgynghoriadau ar lefel ranbarthol, yw y bydd angen gwneud pobl yn ymwybodol o arwyddocâd yr ymgynghoriad ar gyfer yr ardal maen nhw'n uniaethu â hi.

**Gweithredwyr**

Pan mae ymdeimlad o gymuned wedi'i golli, mae angen ymyrraeth o'r tu allan weithiau i ddod â phobl ynghyd. *A allwch chi ddefnyddio cynlluniau fel y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol i ddod â phobl at ei gilydd i ddod yn berchenogion cymunedol ar gyfleusterau sydd wedi'u colli?*

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: Pam mae ymdeimlad o hunaniaeth leol mor bwysig i Balchder Bro, ar wahân i statws economaidd y bobl neu'r ardal? Pa rôl mae siopau a thafarnau annibynnol yn ei chwarae wrth greu ymdeimlad o gymuned?

Awgrym gan gyfranogwr: Defnyddio data i dynnu sylw at faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw ar lefel y gymuned ac mewn perthynas â chymunedau o ddiddordeb.

## Stori Freda a Huw: Ynysu

"Dwi ddim yn 'nabod neb yma rhagor. Dim ond pobl ddieithr sydd ar y stryd pan fydda i'n cerdded i'r swyddfa bost. Mae rhai ohonyn nhw'n ddigon neis, ond dydw i ddim yn gwybod pwy yw pwy dyddie 'ma. Ers i Huw gael ei ddamwain, fe wnaethon ni stopio mynd allan a gorfod rhoi'r gorau i'r car. Roedd hynny'n gwneud bywyd yn anodd. Tasen ni ddim yn dod yma, fydden ni ddim yn gweld neb o un wythnos i'r llall.

"Mae ein merch wedi symud i Loegr a dydi hi ddim yn gallu ymweld mor aml ag y mae hi eisiau. Ni'n cadw dweud wrthi hi fod ganddi ei theulu ei hun i ofalu amdano. Ond roedd hi'n

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Ledled y rhanbarth, mae cannoedd o wirfoddolwyr wedi sefydlu a chynnal canolfannau cymunedol, sesiynau galw heibio a mannau cynnes. Mae straeon fel un Freda yn dangos gwerth eu gwaith. Mae presenoldeb ar-lein yn ei gwneud hi'n haws i'r rhai sy'n byw y tu allan i'r ardal ddod o hyd i weithgareddau, adnoddau a chefnogaeth i aelodau o'r teulu sy'n byw yn lleol.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Mae gwirfoddolwyr yn adnodd anhygoel, ond maen nhw angen cymorth ariannol a chymorth polisi i barhau a datblygu eu gwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a oedd ynghlwm wrth sefydlu a rhedeg gweithgareddau fel sesiynau galw heibio wedi derbyn cymorth amhrisiadwy gan gynghorwyr lleol a chydlynwyr ardal lleol.

**Gweithredwyr**

Mae'n gallu bod yn anodd cael gwybod am weithgareddau lleol. Mae angen cyfuniad o ddulliau i rannu'r neges, gan gynnwys postio ar-lein a gosod hysbysiadau mewn siopau a chanolfannau iechyd lleol.

**Academyddion**

poeni amdanon ni ac fe wnaeth hi ymuno â'n grŵp ar-lein lleol. Dyna le clywodd hi fod caffi galw heibio wedi agor yn y ganolfan gymunedol. Fe wnaeth hi gysylltu â nhw a threfnu lifft i ni. Mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth."

*Freda, 80au, mewn digwyddiad galw heibio cymunedol.*

Awgrym gan gyfranogwr: Darlithoedd i grwpiau cymunedol a chyrsiau byr am ddim mewn canolfannau cymunedol, gan gynnwys cyrsiau byr i wneud iawn am 'addysg goll' ar TG a rhedeg busnes.

## Stori Max: Ifanc, traws a digartref

"Y peth gwaethaf yw bod gormod o bobl yn byw'n lleol, ac mae rhent a'r dreth gyngor yn rhy uchel. Mae pobl yn methu dod o hyd i dai i'w rhentu, heb sôn am brynu. Mae contractau dim oriau tymor byr yn golygu na allwch chi fforddio rhentu na phrynu'n lleol, felly mae cymunedau'n chwalu a phobl yn gadael. Mae prisiau wedi mynd drwy'r to. Fe ges i fy nghicio allan ar ôl dweud wrth fy rhieni fy mod i'n draws. Fe fues i'n byw ar y stryd am gyfnod. Fyddwn i ddim wedi gallu byw heb gymorth gan eglwysi a'r banciau bwyd.

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae llawer o bobl drawsrywiol ac LHDTC+ eraill yn profi lefelau uchel o wahaniaethu ac yn byw gyda'r ofn o ymosodiadau geiriol a chorfforol. Mae'n helpu'n fawr i gael cynghreiriaid a fydd yn codi llais os ydyn nhw'n gweld neu'n clywed geiriau gwahaniaethol neu ymosodol. Mae hefyd yn helpu os yw perchnogion siopau a busnesau yn barod i arddangos symbolau sy'n gysylltiedig ag LHDTC+.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Mae stori Max yn dangos sut mae problemau'n cydblethu. Iddo ef, mae prisiau tai, gwahaniaethu, rhagolygon gwaith, ymgyrchu cymunedol, cyfleoedd addysg, rhwydweithiau cymunedol a pholisïau tai i gyd yn cyfrannu at ei sefyllfa bresennol. Mae angen i'r gwaith o lunio polisïau edrych ar systemau ehangach, yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion unigol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu edrych o'r newydd ar sut mae cyllidebau'n cael eu dyrannu a'u cyfuno.

**Gweithredwyr**

Mae stori Max yn cynnwys sawl gwers ar gyfer darparwyr gwasanaethau. Cafodd yr her o gael gafael ar wasanaethau priodol a pharchus ei rhannu gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr Du, Asiaidd, LHDTC+ ac anabl. Mae angen o hyd yn ne-orllewin Cymru am hyfforddiant cydraddoldeb effeithiol.

"Fe wnaeth yr adran dai drefnu hostel i fi, ond roedd rhai o'r trigolion eraill yn creu trafferth i fi. Dwi'n lwcus nawr, mae gen i ffrindiau sy'n gadael i mi aros am ychydig tra dwi'n cael trefn ar fy mhen. Dwi'n disgwyl clywed gan y cyngor am fflat. Fe wnes i gŵyn yn erbyn un ohonyn nhw. Maen nhw'n dweud eu bod nhw'n gynhwysol, ond roedd y gweithiwr yn cadw defnyddio fy enw benywaidd marw yn lle fy enw iawn ac yn mynnu fy ngalw i'n 'hi'. Fe wnes i'n dda yn yr ysgol, ond wnaeth neb awgrymu i fi fynd i brifysgol. Fe fyddwn i wedi hoffi gallu rhoi cynnig arni, achos fe fyddai'n braf gallu edrych ymlaen at rywbeth mwy na throi byrgyrs mewn caffi glan-môr dros yr haf."

*Max, 20, lled-wledig, di-waith, di-gartref, ac yn ceisio creu dyfodol cadarnhaol.*

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: profiadau bywyd pobl ifanc, draws a Chymreig. Dylai'r ymchwil gynnwys Trans Aid Cymru.
Awgrym ymarferol: Gwneud mynd i'r brifysgol yn fwy hygyrch i bobl ifanc leol. Er enghraifft:

- Dylunio cyrsiau prifysgol byr a sicrhau cyfle i aros mewn neuaddau er mwyn i bobl ag anableddau dysgu allu dysgu arweinyddiaeth a phynciau ymarferol.
- Ymweld ag ystafelloedd dosbarth a chlybiau ieuenctid a chynnig rhagflas preswyl o fywyd prifysgol dros yr haf i bobl ifanc o bob rhan o'r rhanbarth fel rhan o godi dyheadau a'u gwneud yn ymwybodol o'r ystod o opsiynau gyrfa sydd ar gael.
- Cynnig prentisiaethau a gwneud pobl ifanc o bob rhan o'r rhanbarth yn ymwybodol o brentisiaethau gradd.

## Stori Dewi: Chi ddim yn gweld gwerth pethau nes i chi eu colli nhw

"Fyddwn i ddim yn dweud fy mod i erioed wedi teimlo'n falch o ble rwy'n byw oherwydd bod canolfan gymunedol yma. Ond ers iddi gau, mae'r ardal wedi mynd i'r gwellt. Mae pethau cynddrwg nes ein bod ni wir yn ystyried symud.

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae diogelu mannau cymunedol yn hanfodol. *Mae cynllun trosglwyddo asedau cymunedol i helpu gyda hyn. Gallwch ddysgu mwy gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru neu Cwmpas*.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Nid yw'r arian ar gael gan rai ardaloedd i ariannu gwasanaethau fel roedden nhw'n gallu ei wneud ar un adeg. Mae diffyg cyllid yn arafu gwaith cynnal a chadw a'r gallu i greu cyfleusterau newydd. *Mae hyn yn effeithio ar sut mae pobl yn teimlo am eu bro a'u bywydau, ac mae'n gallu arwain at gylch dieflig o waethygu.*

Does dim byd i bobl ifanc yma nawr heblaw sefyll ar y stryd a chreu trwbwl.

“Roedd pob math o bethau cymunedol - paned a chlonc ar ddydd Mercher, a chlwb cinio i bensiynwyr, a phob math o bethau’n cael eu cynnal amser y Nadolig. Mae hynny i gyd ar ben nawr hefyd. Does unman i ni gyfarfod a gwneud pethau fel cymuned erbyn hyn. Mae’n hollol wir, dydych chi ddim yn gweld gwerth pethau nes i chi eu colli nhw.”

*Collodd Dewi, 50au, ei swydd 11 mlynedd yn ôl ac mae wedi rhoi’r gorau i obeithio cael gwaith.*

**Gweithredwyr**

*Lle mae mannau cymunedol dan fygythiad, gweithiwch gydag aelodau o’r gymuned leol i nodi unrhyw botensial ar gyfer defnyddio’r cynllun trosglwyddo asedau cymunedol.*

---

**Academyddion**

Blaenoriaethau ymchwil: sut i amddiffyn adeiladau rhestredig a’u diogelu at y dyfodol; sut i greu dyfodol o’r stryd fawr lle mae pobl yn cerdded o gwmpas ac yn mwynhau rhannu gofod ac adeiladu cymuned.

## Stori Sakura: Profiadau cymysg

“Alla i ddim diolch ddigon i’r holl bobl sydd wedi ein helpu ni. Fe wnaethon ni gyrraedd heb ddim byd ond mae gennym ni bopeth rydyn ni ei angen erbyn hyn. Mae pobl o’n cymuned ni, o’r mosg, yn ein helpu ni, ac mae menywod o’r eglwys ger ein tŷ dros dro yn galw i’n helpu ni hefyd.

Ond mae’n rhaid i mi sôn, pan oedden ni’n dod o’r mosg wythnos diwethaf, roedd y dyn yma’n gweiddi arnon ni i fynd yn ôl adref. Fe wnes i afael yn dynnach yn fy mhlant, edrych i lawr a dal i gerdded. Ond dwi’n dweud wrthoch chi, roeddwn i wedi dychryn cymaint.”

*Sakura, 30au, newydd dderbyn caniatâd amhenodol i aros ar ôl hawlio lloches.*

**Pobl sy’n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae llawer o bobl ledled y rhanbarth wedi gweithio’n galed i gefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae gwahaniaethu yn dal i ddigwydd, ac mae llawer o fythau am geiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae’n fuddiol i bobl sy’n byw yn ne-orllewin Cymru ddarganfod y ffeithiau, datblygu hyder i fod yn gynghreiriaid a dysgu ffyrdd o groesawu pobl i’w cymunedau.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Mae de-orllewin Cymru yn cynnig profiad cymysg o gydlyniant cymunedol. Ar un lefel, mae polisïau, grantiau a rhaglenni cyfredol yn effeithiol. Ond ar lefel arall, mae hiliaeth yn dal i fod yn brofiad beunyddiol i ormod o bobl. Mae gwrando ar bobl fel ‘Sakura’ **a’r** rhai sy’n cynnal mythau ac agweddau hiliol yn hanfodol i’r dyfodol.

**Gweithredwyr**

Mae llawer o waith anhygoel yn digwydd ar lefel gymunedol. Mae angen i’r rhai ar y rheng flaen ddatblygu hyder a sianeli cyfathrebu i drosglwyddo’r hyn maen nhw’n ei wybod i lunwyr polisïau ar lefel leol, Cymru a’r DU.

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: Casglu a rhannu ffeithiau am fewnfudo a cheisio lloches yn ne-orllewin Cymru.

## Stori Eleri: Effaith tai newydd

"Dwi'n 60 erbyn hyn a hyd nes i'r tai newydd gael eu codi ddwy flynedd yn ôl, fe fyddwn i'n dweud fy mod i'n nabod pawb yma. Roeddwn i yn yr ysgol gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Fe fydden ni'n gweld ein gilydd yn y capel ac yn cael clonc dda yn y siop – y cyfan yn Gymraeg, wrth gwrs. Roedden ni'n edrych ar ôl ein gilydd. Dwi'n falch iawn o'n cymuned fach ni.

Ond y bobl newydd yma, mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw ddim o'r ardal hyn a dydw i ddim wedi cwrdd ag unrhyw un sydd wedi symud yma o gymuned Gymraeg. Maen nhw'n dod ar wyliau, yn cwympo mewn cariad â'r ardal ac yn prynu unrhyw beth maen nhw'n gallu. Dydyn nhw ddim fel fi. Fi, y gymuned sy'n fy ngwneud i'n falch. Nhw – dydyn nhw'n ffaelu peidio dangos eu hunain i ymwelwyr am y golygfeydd a brolio eu bod nhw'n gallu byw yma. Does gan y rhan fwyaf ohonyn nhw ddim diddordeb ym mywyd y pentref o gwbl – neu maen nhw'n trio cymryd drosodd a dweud wrth bawb beth i'w wneud."

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae'r Gymraeg yn ymwneud â diwylliant, treftadaeth a chymuned yn ogystal â'r iaith ei hun. Mae dysgu'r iaith yn bwysig. Er mwyn cryfhau cymuned, mae hefyd yn bwysig i siaradwyr Cymraeg helpu dysgwyr i ddeall a chael mynediad i'r diwylliant a'r gymuned.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Mae problem cartrefi a chymuned yn fwy nag ail gartrefi a chartrefi gwyliau yn unig. Mae codi tai newydd yn gallu effeithio'n negyddol ar gymuned sefydledig, yn fwy fyth os mai Cymraeg yw iaith bob dydd y gymuned honno.

**Gweithredwyr**

Lle mae cynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy newydd, gwnewch yn siŵr bod cyfleoedd i rentu neu brynu yn cael eu hysbysebu o fewn cymunedau Cymraeg eraill i leihau glastwreiddio'r iaith.

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: Pam y gallai adeiladu cartrefi newydd effeithio'n negyddol ar yr ymdeimlad o gymuned mewn rhai ardaloedd ond nid eraill?

Wrth i bobl fel Eleri heneiddio, maen nhw'n rhoi'r gorau i yrru ac yn methu dibynnu ar allu cyrraedd safle bws neu ar wasanaeth bysiau gwledig digonol. A allai academyddion archwilio'r potensial ar gyfer ceir heb yrwyr mewn ardaloedd gwledig?

*Eleri, 60, siarad Cymraeg, gwledig*.

## Pytiau o sesiwn galw heibio ‘mannau cynnes’: Agweddau at amrywiaeth

“I fod yn onest, y peth dwi’n ei gael yn anodd yw agweddau cymunedau lleol tuag at fathau penodol o bobl. Chi’n gwybod, pobl anabl, lleiafrifoedd. Maen nhw mor hen ffasiwn.”

“Dwi’n gwybod. Fe wnes i ofyn am ostwng ymyl y palmant er mwyn iddi fod yn ddiogel i fynd o fy nhŷ i’r safle bws. Dyma nhw’n dweud bod dim arian a gwneud dim. Does ganddyn nhw ddim diddordeb mewn pobl anabl.”

“Does ganddyn nhw ddim diddordeb yn yr un ohonon ni. Fe dynnwyd y bwrdd LHDTC+ i lawr yn fy ngweithle i, felly roedd rhaid i fi roi un arall fyny yn ei le.”

“Pawb at y peth y bo. Os yw pobl eisiau bod yn hoyw, mae hynny’n iawn, mae hynny lan iddyn nhw, ond peidiwch â’i wthio fe yn fy wyneb i ar y teledu na chusanu yn y stryd.”

“Mae’n braf cael y myfyrwyr rhyngwladol o gwmpas. Maen nhw’n ychwanegu bach o egni i’r stryd.”

“Mae angen i’r brifysgol wneud mwy i ddysgu rhai o’r myfyrwyr tramor am y diwylliant. Does ganddyn nhw ddim parch at ein ffyrdd ni a dydyn nhw ddim yn gwneud unrhyw ymdrech i ffitio mewn”

**Pobl sy’n byw yn ne-orllewin Cymru**

Disgrifiwyd sawl ardal yn ne-orllewin Cymru fel rhai sydd ag agweddau ‘hen ffasiwn’ tuag at rywedd, rhywioldeb, anabledd ac amrywiaeth ddiwylliannol. Ar y llaw arall, roedd rhai cyfranogwyr wedi cael eu derbyn a’u cynnwys er eu bod yn ‘wahanol’ i’r rhai sy’n byw o’u cwmpas.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Mae diffyg arian a chyfyngiadau llunwyr polisi a chyllidwyr i fynd i’r afael ag anghenion y boblogaeth gyfan yn destun rhwystredigaeth i bobl sy’n credu nad ydyn nhw’n flaenoriaeth.

**Gweithredwyr**

Soniodd trefnwyr a darparwyr gwasanaethau am wneud addasiadau unwaith y byddai rhywun yn ymuno neu’n gofyn am ddefnyddio gwasanaeth. Fodd bynnag, soniodd cyfranogwyr am beidio â defnyddio gwasanaeth neu ymuno â gweithgaredd oherwydd nad oedden nhw’n siŵr y byddai croeso iddyn nhw. *Mae angen i’r rhai sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gweithgareddau cymunedol feddwl am amrywiaeth y boblogaeth a chynllunio ar gyfer hynny.*

**Academyddion**

Awgrym gan gyfranogwr: Cefnogi pobl LHDTC+ i drefnu digwyddiadau Pride y tu hwnt i ganol dinas Abertawe.

Defnyddio’r wythnos groeso i gyflwyno myfyrwyr i aelodau’r gymuned a gweithgareddau lleol drwy gefnogi canolfannau cymunedol i gynnal digwyddiadau. Darparu cyfleoedd diwylliannol i bobl leol a myfyrwyr rhyngwladol wneud pethau gyda’i gilydd.

*John, 43; Sian, 28; Alan, 40; a Fiona, 52*

## Stori Tudur: Beth nesaf ar ôl y brifysgol?

“Mae swyddi ffordd ’ma naill ai’n rhai gyda chyflog da yn y burfa olew neu’n swyddi isafswm cyflog dim oriau. Y swyddi i bobl fel fi sydd ar goll, chi’n gwybod, swyddi i bobl sydd newydd raddio. Does dim cyfleoedd ar gyfer swyddi o werth y tu allan i faes gwasanaethau cyhoeddus.

Fe wnes i feddwl am ddechrau fy musnes fy hun yn lle hynny, ond does dim swyddfeydd ar gael i’w rhentu a doeddwn i ddim yn gallu ticio’r bocsys cywir i gael grant. Gyda chost tanwydd, alla i ddim fforddio teithio am swydd â chyflog isel, ac wrth i brisiau bwyd godi, mae’n anoddach gwario arian ychwanegol yn mynd allan i gefn gwlad. Dwi adref gyda mam am y tro, ond dwi ddim yn disgwyl aros yma’n hir. Mae’n torri fy nghalon ac yn fy ngwneud i’n flin nad ydw i’n gallu byw a bod yn agos at mam.”

*Tudur, 20au, gradd mewn rheoli busnes, di-waith ar hyn o bryd ac yn byw gartref.*

**Pobl sy’n byw yn ne-orllewin Cymru**

Pe bai Tudur wedi dechrau ei fusnes ei hun, gallai fod wedi wynebu’r rhwystr a nodwyd gan rai o’r cyfranogwyr: teimlad bod aelodau o’r gymuned leol eisiau eu gweld yn methu am fynd uwchben eu safle. Fel cymunedau, mae angen i ni werthfawrogi mentergarwch ac uchelgais pobl ifanc.

Cyn ystyried gadael yr ardal i fynychu prifysgol, mae’n werth gwirio beth sydd ar gael yn lleol gan y gallai hyn roi cyfle i greu cysylltiadau a meithrin profiad sy’n arwain at swydd addas ar ôl graddio.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Gwrandewch ar bobl sydd eisiau dechrau busnes, neu sy’n ei chael hi’n anodd dechrau busnes, neu sydd wedi gadael yr ardal oherwydd ei bod yn amhosibl dechrau arni yn ne-orllewin Cymru. Yn benodol, cysylltwch â’r rhai sy’n aflwyddiannus wrth wneud ceisiadau am grant ac annog pobl i gysylltu â chi os nad ydyn nhw’n ateb y gofynion. Bydd mwy o rowndiau o arian Ffyniant Bro yn y dyfodol, a gallai gwrando ar bobl eich helpu i lunio prosiect yn y dyfodol sy’n caniatáu i fwy o entrepreneuriaid ddechrau arni yn eu hardal leol.

**Gweithredwyr**

Mae cymunedau’n ymateb i heriau costau byw gyda mannau cynnes, banciau bwyd a phrydau cymunedol. Weithiau, nid yw pobl fel Tudur yn sylweddoli bod y cymorth yma ar gael i bobl sy’n byw mewn ‘tlodi cudd’.

Mae cyfle i ddatblygu cymunedau busnesau newydd a mannau cydweithio ledled y rhanbarth.

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: Sut mae sicrhau bod pobl ifanc yn gallu ffynnu heb adael?

## Stori Mair: Mae mwy i lyfrgelloedd na dim ond benthyg llyfrau

"Mae'r llyfrgell leol yn ardderchog. Mae'r staff mor gefnogol a charedig. Wn i ddim beth fyddwn i'n ei wneud hebddyn nhw. Fe wnaethon nhw helpu i gael trefn ar fy mudd-daliadau pan ges i lythyr nad oeddwn i'n ei ddeall. Roeddwn i wedi drysu'n llwyr, ond dyma nhw'n esbonio'r llythyr, yn cael popeth yn barod ar y cyfrifiadur a dangos i fi beth i'w wneud. Maen nhw bob tro'n gwneud amser i ddweud 'helo'. Mae bore coffi ar ddydd Mercher, ac mae wastad yn gynnes ac yn gyfeillgar yno. Mae'n fwy na dim ond lle i fenthyg llyfrau. Dyma galon ein cymuned. Dyma le mae pobl yn cwrdd, yn enwedig ers i ni golli'r ganolfan gymunedol. Ges i ergyd pan benderfynodd y cyngor leihau'r oriau agor a hynny'n arwain at un o'r staff yn colli ei swydd."

*Mair, 70au cynnar, mam i bump o blant mewn oed sydd i gyd wedi symud o'r ardal ond yn dal i gadw mewn cysylltiad, wedi colli ei gŵr yn ddiweddar.*

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Carwch eich llyfrgelloedd! Maen nhw'n cynnig cymaint mwy na dim ond gwasanaeth benthyg llyfrau. Os nad ydych chi wedi ymweld â'ch llyfrgell yn ddiweddar, mae'n werth edrych beth maen nhw'n ei gynnig.

Mae pobl o bob oed a chyfnod bywyd yn adrodd fersiynau tebyg o stori Mair.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

*Fel y dengys stori Mair, mae'n ymddangos bod llyfrgelloedd yn wasanaeth ataliol hynod effeithiol.* Mae cwtogi oriau llyfrgell neu gau canghennau yn gallu arwain at anawsterau cynyddol a chynyddu'r ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

**Gweithredwyr**

Mae llyfrgelloedd yn aml yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol. Os oes gennych chi syniad am weithgaredd newydd, mae'n werth siarad â'r gangen leol i weld os ydyn nhw'n gallu ei gynnal.

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: Dangos tystiolaeth o werth cymdeithasol a chymunedol llyfrgelloedd. *Y rheswm am hyn yw bod mesurau perfformiad cyfredol mewn rhannau o dde-orllewin Cymru yn seiliedig ar nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg. Mae angen mesurau newydd i bennu gwerth llyfrgell i'r gymuned.*

## Stori Tom: ymgyrchu cymunedol

"Dwi'n falch o'r gwirfoddolwyr a'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni. Rydyn ni wedi llwyddo ar ein pen ein hunain i drawsnewid y lle. Dydyn ni ddim angen llawer o gyllid i gael prosiectau ar waith. Fe hoffwn pe bai'r cyngor yn gwrando ac yn ein cefnogi ni yn hytrach na gwneud i ni frwydro am gyllid ac yna taflu arian at y prosiectau maen nhw o'u plaid.

"Does gyda ni ddim gobaith o ystyried pwy yw ein cynghorydd ni. Dim ond y bobl â thai mawr sy'n gallu fforddio teithio allan o ardal am bopeth sy'n bwysig i'r cynghorydd. Rydyn ni angen cyngor a chynghorwyr sydd eisiau gweithio gyda ni, oherwydd mae gwella'r ardal yn gyfrifoldeb i lawer, nid dim ond gwirfoddolwyr."

*Tom, 37, cyd-sefydlydd a gwirfoddolwr gyda grŵp amgylcheddol lleol.*

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae stori Tom yn un gyffredin: mae angerdd a chymhelliant dros newid yn dod â chymunedau at ei gilydd, yn aml er gwaethaf yr anawsterau a arweiniodd at yr ymgyrchu yn y lle cyntaf. Pan fydd pobl yn teimlo nad yw penderfyniadau sy'n cael eu gwneud o fudd iddyn nhw, mae'n gallu arwain at ymgyrchu a newid cadarnhaol, ond hefyd at ddrwgdeimlad. Mae pobl eisiau teimlo bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd deg a thryloyw, a deall pam mae rhai camau gweithredu yn cael eu blaenoriaethu dros eraill.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Ychydig iawn o gyllid sydd ei angen i gynnal nifer o wasanaethau, ond mae'n rhaid i gymunedau frwydro am y cyllid hwn. Byddai dosbarthu'r cyllid presennol yn gyfartal a blaenoriaethu lles y gymuned, gyda chynllun hirdymor, yn helpu.

Mae rhai cyfranogwyr yn credu mai blaenoriaeth gwleidyddion yw denu pleidleisiau yn hytrach nag ystyried y problemau go iawn sy'n wynebu cymunedau. Roedden nhw'n dadlau y dylai cydraddoldeb a thegwch fod wrth wraidd llunio polisïau ond y teimlad ar hyn o bryd, mewn sawl ardal, yw bod y grym mwyaf yn nwylo'r rhai mwyaf ariannog. Teimlai llawer nad gan y cymunedau lleol y mae'r grym, ond gan yr awdurdod lleol, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru a'r DU. Maen nhw'n credu bod y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer llunio polisïau da yn lleol ond nad yw'r rhai mewn grym yn aml yn werthfawrogi gwybodaeth leol.

**Gweithredwyr**

Daliwch ati! Os ydych chi'n cael eich ariannu i ddarparu gwasanaethau a chefnogi cymunedau, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwrando ar bobl fel Tom ac yn cael eich arwain ganddyn nhw. Os ydych chi yn sefyllfa Tom, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod sut i ddangos tystiolaeth o effaith eich gwaith. Os nad ydych chi'n siŵr sut i wneud hynny, mae canllaw Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn lle da i ddechrau: https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/managing-your-grant/learn-from-your-project/data-and-evidence

**Academyddion**

Blaenoriaeth ymchwil: Hunangymorth a chymorth ar y cyd o fewn cymunedau, er enghraifft syniadau ar gyfer gofal cilyddol a chymorth ar y cyd lle mai'r cyfan sydd ei angen yw ychydig o help a chyngor fel bod pobl yn gallu helpu ei gilydd.

Awgrym gan gyfranogwr: Cynnwys cydgynhyrchu mewn addysg a hyfforddiant. Darparu gwasanaeth gwerthuso cydgynhyrchu. Helpu cynghorwyr ac aelodau etholedig eraill i ddysgu sut mae cydgynhyrchu gyda'u hetholwyr.

## Stori Laura: Y rheswm dros brynu tŷ haf

"Fe ddaethon ni ar wyliau, ac roedd hi mor brydferth nes i ni benderfynu bod rhaid i ni ddod yn ôl. Mae yna barciau prydferth i fynd â'r ci am dro a chwrdd â phobl. Dwi wrth fy modd â'r traeth a'r llefydd coffi lleol a'r golygfeydd o'r bryniau. Dwi'n edmygydd mawr o'r harddwch naturiol sydd gan yr ardal hon i'w gynnig. Dwi mor ddiolchgar bod gen i gymaint o natur ar garreg y drws. Fe wnaethon ni brynu tŷ haf yma yn 2016, ac rydyn ni'n treulio bron bob penwythnos ac ychydig wythnosau bob haf yma. Roedd yn lle delfrydol i dreulio'r cyfnod clo.

"Rydyn ni wedi sôn am symud yma'n barhaol nawr bod y plant yn hŷn, ond mae'r Wi-Fi a'r signal ffôn gwael yn ei gwneud hi'n anodd cadw mewn cysylltiad â'r brif swyddfa, a dwi

**Pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru**

Bydd trigolion dros dro a rhan-amser yn parhau i fod yn her i'r rhai sy'n byw yn ne-orllewin Cymru o un pen y flwyddyn i'r llall. Mae problemau tebyg gyda niferoedd uchel o fyfyrwyr yn byw mewn ardaloedd a oedd yn arfer bod yn ardaloedd preswyl i deuluoedd. Mae'n effeithio ar brisiau tai, defnydd tymhorol trymach o wasanaethau cyhoeddus (weithiau gan bobl nad ydyn nhw'n talu'r dreth cyngor, fel myfyrwyr) ac mae canlyniadau dilynol megis llai o blant yn byw mewn ardal, a llai o ddisgyblion ar gyfer ysgolion gwledig lleol yn sgil hynny. Mae trigolion dros dro a rhan-amser hefyd yn effeithio ar y gymuned leol, gan droi'r hyn a oedd yn un gymuned yn gyfuniad o'r 'hen gymuned' a 'mewnfudwyr'. *Mae'r rhain yn faterion ar gyfer llunwyr polisi. Fodd bynnag, yn y tymor byr, mae'n bosibl lleihau'r effaith ar y gymuned drwy chwilio am ffyrdd o ddenu trigolion dros dro i fod yn rhan o'r gymuned.*

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

*Mae hwn yn fater polisi adnabyddus sydd eisoes yn cael sylw. Mae'n werth nodi y gallai gwella seilwaith a chyfleoedd i bobl ifanc yn eu harddegau, gyda'r diwylliant gweithio hybrid sydd ohoni, droi trigolion rhan-amser yn rhai llawn amser.*

**Gweithredwyr**

Nid Laura yw'r unig un sydd eisiau gwell seilwaith a mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yn eu harddegau. *Weithiau, mae barn rhywun o'r tu allan yn help i ni gydnabod rhai o'r rhwystrau allweddol i wella lles a balchder bro. Gallai blaenoriaethu'r ddau fater hyn fod o fudd i bawb.*

**Academyddion**

wedi clywed bod diffyg cyfleoedd a gweithgareddau i bobl ifanc yn eu harddegau."

*Laura, 40au, Saesnes, uwch reolwr mewn cwmni ariannol.*

Blaenoriaethau ymchwil: Effaith ail gartrefi ar hunaniaeth gymunedol. Y dadleuon economaidd a chymdeithasol o blaid ac yn erbyn tai haf.

# Y mapiau cysyniad

Mae PLACE wedi'i gynllunio i gynnig dealltwriaeth eang a chryf am faterion cymhleth ledled poblogaethau, lle mae pobl yn ystyried y materion hynny ac yn gwneud synnwyr ohonyn nhw mewn ffyrdd gwahanol iawn.


Mae hyn yn golygu nad yw'r canfyddiadau yn gallu cynnig dealltwriaeth fanwl a dibynadwy i themâu a ddiffiniwyd ymlaen llaw neu ar gyfer cymunedau penodol.

O'r herwydd, edrychwyd ar sut roedd pobl eu hunain yn tueddu i grwpio syniadau a phynciau wrth iddyn nhw sôn am eu hardal leol. Nodwyd pum clwstwr o gysyniadau ac fe'u henwyd fel a ganlyn:

- perthynas
- y fro ei hun
- gwasanaethau
- yr economi
- personol.

Mae'r rhain wedi'u trefnu yn unol â chryfder y dystiolaeth a'r teimladau a gododd yn y gwaith cychwynnol a'r digwyddiad cydgynhyrchu.

Mae dull gweithredu PLACE yn golygu y byddai dadansoddi a chyflwyno canfyddiadau ar lefel leol yn gamarweiniol. O ganlyniad, mae'r mapiau hyn ar gyfer de-orllewin Cymru gyfan.


Neighbourly
Antisocial behaviour
Family/ friends
People
Substance misuse
Identity
Community activities
Community
Relatedness
Sense of community
identity
Equality, Diversity, Inclusion
Belonging
Culture
Welshness
Generational links
Language

## Perthynas

Roedd perthynas gref rhwng boddhad â bro ac adnabod a hoffi cymdogion a chael teulu a ffrindiau yn lleol. Pan ofynnwyd sut maen nhw’n teimlo am ble maen nhw’n byw, roedd y dyfyniad hwn yn adleisio sylwadau llawer o bobl: “Dwi’n meddwl am y bobl yn gyntaf yn hytrach na’r ardal”.

Ledled y rhanbarth, mae rhai cymunedau yn profi newid tra bod rhai yn fwy sefydlog. Roedd y ffactorau arwyddocaol ledled y rhanbarth yn cynnwys:

- mewnlifiad o bobl o’r tu allan i’r ardal, gan newid diwylliant, sefydlogrwydd a defnydd iaith yn lleol
- poblogaethau dros dro a thymhorol yn lleihau’r posibilrwydd o greu cymuned gref sefydlog
- newidiadau ym myd diwydiant sy’n effeithio ar yr amgylchedd a’r economi
- penderfyniadau llywodraeth leol, a Llywodraethau Cymru a’r DU ynghylch cynllunio, buddsoddi ac adfywio.


Roedd gan bobman straeon am sbwriel, baw cŵn, llygredd sŵn ac enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd pocedi o fandaliaeth, meddwdod cyhoeddus a phryderon diogelwch ledled y rhanbarth.

Mewn ardaloedd gyda threftadaeth a hunaniaeth gadarn ledled y rhanbarth, roedd hiraeth am adeg pan oedd cymunedau’n fwy cydlynol ac yn fwy gweithgar, er enghraifft, yn trefnu digwyddiadau lleol blynyddol.

Roedd cyfeiriadau mynych at gulni, agweddau hen ffasiwn a diffyg derbyn o ran amrywiaeth rhywedd, rhywioldeb, diwylliant a lliw croen, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Ledled y rhanbarth, mae deinameg wahanol ynghlwm wrth ddiwylliant, hunaniaeth a defnydd iaith Cymraeg a Saesneg. Mewn ardaloedd â defnydd Cymraeg uchel ac ymhlith siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd lle mai prin yw’r defnydd o’r iaith, roedd ymdeimlad o fodolaeth Cymru Gymraeg a Chymru Seisnig, gyda phobl yn dweud bod gweithgareddau, rhwydweithiau cymdeithasol, cefnogaeth anffurfiol, cymwynasgarwch, cyfleoedd addysgol a rhagolygon swyddi wedi’u rhannu ar sail ieithyddol.

Roedd balchder yn eu hunaniaeth Gymreig yr un mor gryf ymhlith Cymry a oedd yn siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg uniaith.


The Place
Industry
Proximity
Size
Heritage
Culture
Sport
Character
Sense of safety
Cleanli-ness
Noise
Housing
Planning
Nature
Weather

# Y fro ei hun

Wrth ddisgrifio eu hardal, y mannau gwyrdd a glas oedd testun sylwadau cyntaf y rhan fwyaf o bobl. Soniwyd am y rhain yn amlach nag unrhyw nodwedd arall. Roedd y mannau gwyrdd yn cynnwys cefn gwlad, parciau a phrosiectau cymunedol, fel rhandiroedd, a'r mannau glas yn cynnwys traethau, y môr, afonydd a chamlesi.

Roedd balchder ar ei fwyaf pan oedd cyrraedd y mannau hynny ar ei fwyaf hwylus, er enghraifft, ymhlith pobl a oedd yn byw o fewn pellter cerdded hawdd neu bobl gyda'r defnydd o gar. Roedd gallu manteisio ar draethau a'r môr yn cael ei gydnabod fel nodwedd unigryw o ganol dinas Abertawe.

Roedd pobl yn teimlo mwy o falchder mewn llefydd â'u hunaniaeth a'u cymeriad eu hunain, ar yr amod bod y cymeriad hwnnw'n bodloni eu disgwyliadau. Roedd y datganiad "Mae'n rhywle i ymlacio – tawel, heddychlon a heb ei ddifetha" yn destun balchder i un ymatebydd ond diflastod a rhwystredigaeth i un arall.


Roedd pobl yn ymwybodol o sut mae pobl eraill yn meddwl am eu hardal, gyda hynny'n effeithio ar eu balchder. Er enghraifft, "Dydw i ddim yn falch. Dwi'n drist ac mae gen i gywilydd. Pan mae pobl yn gofyn i fi o ble dwi'n dod a dwi'n dweud Rhydaman, maen nhw'n dweud "o, y lle cyffuriau".

Ledled y rhanbarth, soniwyd am dreftadaeth ambell waith, ond nid oedd yn flaenoriaeth ym meddyliau'r rhan fwyaf o bobl. Roedd unrhyw sôn am dreftadaeth yn tueddu i ddod o Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, "Dwi'n meddwl am rygbi a'r gwaith tun. Mae'n dref sydd â hanes cyfoethog yn y meysydd hynny. Gan fod y diwydiant tun wedi cilio o Lanelli, mae'n drueni gweld y dirywiad yn y gefnogaeth i rygbi gyda phêl-droed ar gynnydd".

Mae tai yn broblem ledled y rhanbarth. Roedd llawer o bobl yn cael trafferth gyda fforddio rhent a phrynu tŷ. Fodd bynnag, roedd y bobl a oedd yn dychwelyd i'r ardal, o Fryste neu Lundain er enghraifft, naill ai'n meddu ar y cyfalaf ar ôl gwerthu tai neu roeddent wedi dod yn ôl i weithio o bell ond yn dal i ennill cyflogau Bryste/Llundain. Roeddent yn gallu fforddio tai gwell gan fod prisiau yn y rhanbarth yn is. Dywedwyd bod y pandemig wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n symud i'r rhanbarth i weithio o bell, i fanteisio ar well ffordd o fyw, tai mwy fforddiadwy, a harddwch yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn awgrymu bod cyflogau, swyddi a chyfleoedd busnes yn fwy o broblem yn y rhanbarth na phrisiau tai.

Roedd yr ymdeimlad o gymuned yn dioddef pan oedd gormod o bobl yn byw mewn ardal yn rhan-amser, boed yn dwristiaid, perchnogion ail gartrefi neu'n fyfyrwyr. Roedd tebygrwydd rhwng sylwadau gan deuluoedd lleol mewn ardaloedd â niferoedd uchel o fyfyrwyr yn Abertawe a theuluoedd lleol mewn ardaloedd gwledig â dwysedd uchel o lety gwyliau. Roedd problemau'n ymwneud â phobl ddim yn adnabod eu cymdogion bellach a diffyg cymysgu rhwng preswylwyr gyda gwreiddiau dwfn a mewnfudwyr neu breswylwyr dros dro.

Ledled y rhanbarth, mynegwyd pryderon am ddiogelwch gan grwpiau penodol o bobl y mae'n hysbys eu bod yn dargedau troseddau casineb, er enghraifft, pobl ag anableddau dysgu, pobl LHDTC+ a phobl ethnig leiafrifol. Roedd gweledded cefnogaeth yn cynyddu'r ymdeimlad o ddiogelwch, boed hynny'n arddangos baneri enfys neu siopau'n cofrestru gyda'r ap Assist My Life i fod yn fannau diogel i bobl ag anableddau dysgu.


Services
Public services
Voice
Police
Health services
Council
Services
Schools
Regener-ation
Uni
Amenities
Pubs
Shops
Activities
Travel
Cars/ roads
Bus/ train
Cycle/ walk
Digital

## Gwasanaethau

Ledled y rhanbarth, roedd awydd cyffredinol am weithgareddau ac amwynderau ar gyfer pobl ifanc oedran ysgol uwchradd ac oedolion ifanc. Roedd diffyg y rhain yn gysylltiedig ag oedolion ifanc yn dewis gadael a phobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol oherwydd diflastod.

Roedd siopau, caffis a thafarnau unigryw ac annibynnol yn cael eu gwerthfawrogi, ynghyd â phresenoldeb siopau stryd fawr o ansawdd uchel. Cyfeiriodd pobl mewn ardaloedd gwledig at gau banciau, tafarnau annibynnol a diffyg bwyd ffres mewn rhai siopau pentref.

Roedd problemau cyffredinol gyda dibynadwyedd, amlder, glendid a chost gwasanaethau bws. Soniwyd am broblemau gyda pharcio, goryrru a thyllau yn y ffyrdd ledled y rhanbarth fel pethau sy'n effeithio ar sut roedd pobl yn teimlo am ble maen nhw'n byw.

Roedd llwybrau teithio gwyrdd diogel a llwybr yr arfordir yn cael eu gweld mewn golau cadarnhaol.

Roedd ysgolion cynradd ac uwchradd lleol yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer cymunedau cryf, gyda chlybiau a gweithgareddau i bobl ifanc yn canolbwyntio ar ardaloedd ag ysgol uwchradd.


Roedd rhai pobl yn teimlo y gallai prifysgolion wneud mwy i helpu i hybu dyheadau drwy weithio gydag ysgolion lleol a sicrhau bod pobl ifanc yn deall eu hopsiynau ar gyfer astudio heb adael y rhanbarth.

Cafwyd sylwadau cymysg am gynghorwyr a chynghorau cymuned a sir. Roedd rhai yn teimlo bod angen i gynghorwyr ymfalchïo mwy yn eu hardal ac annog mentrau cymunedol lleol. Roedd eraill yn canmol mentrau lleol a chyfranogiad cymunedol eu cynghorydd.

Yn gyffredinol, mynegwyd awydd i gynghorau wneud yn well ac am wynebau newydd gyda syniadau newydd i ymwneud â gwleidyddiaeth leol.

Rhoddwyd pwys ar weledededd yr heddlu, ac ar deimlo'n sicr y byddai'r heddlu'n trin pobl yn deg, gydag enghreifftiau yn cael eu darparu o bobl LHDTC+ a phobl o dras Roma neu deithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg.

Canmolwyd adfywio yn Abertawe yn gyffredinol, gydag adfywio canol trefi a'r stryd fawr yn flaenoriaeth frys ledled y rhanbarth.


Cost of living
Child care
Income
Jobs
Investment
Prospects
Economy
Start-ups
Inequality
Tourism

## Yr economi


Mewn ardaloedd trefol, cafwyd sylwadau am dlodi gweladwy, fel cysgu ar y stryd, cardota a defnyddio banciau bwyd. Mewn ardaloedd mwy gwledig, roedd pobl yn fwy tebygol o siarad am anghydraddoldeb cudd, yn enwedig y rhai nad oedden nhw'n gallu fforddio rhedeg car.

Roedd awydd am fuddsoddiad mewn busnesau lleol, busnesau newydd a'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer gwaith o bell o ansawdd uchel. Er bod pobl a oedd eisoes mewn swyddi â chyflog da wedi symud i'r ardal i weithio o bell yn ystod y pandemig, mae llai o bobl leol wedi gweld y potensial i aros yn lleol wrth weithio o bell i gwmnïau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

Yn ddiwylliannol, mae'n ymddangos bod tueddiad o hyd i amau neu ddiystyru pobl sydd â dyheadau busnes uchelgeisiol. Roedd rhai yn teimlo ei bod yn fwy derbyniol i fod yn dawel hunan-gyflogedig nag i fod â gweledigaeth i ddechrau busnes sylweddol.

Mewn rhai ardaloedd, mae swyddi naill ai'n rhai â chyflogau uchel neu gyflogau isel, gydag ychydig iawn o opsiynau y tu hwnt i swyddi gwasanaeth cyhoeddus yn y tir canol. Mae perygl i hyn hollti cymunedau a'i gwneud hi'n anoddach i'r rhai sydd heb brofiad o ddim byd ond cyflog gwael neu gyflog isel geisio sicrhau incwm uwch.

Mae twristiaeth yn nodwedd o'r rhanbarth. Y farn oedd bod modd gwneud mwy i fanteisio ar hyn, ond bod angen i hynny fod yn gydnaws â'r fro "fel nad yw'n colli ei chymeriad a'r rheswm pam mae'n denu twristiaid."


Circumstances
Infra-
structure
Place
Pride
Personal
Satisfaction
Humans
Self
Emotions

# Personol

Mae balchder yn ei hanfod yn rhywbeth personol, gyda phobl o ddemograffeg debyg yn ôl yr olwg yn dweud pethau tra gwahanol am eu teimladau am ble maen nhw'n byw.

Mae boddhad yn derm sy'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â Balchder Bro yn yr agenda Ffyniant Bro, ond roedd y bobl i ni siarad â nhw yn ei ystyried yn gysyniad gwahanol i falchder. Gallai pobl deimlo'n fwy neu'n llai bodlon yn annibynnol ar falchder. Roedd balchder yn fwy cysylltiedig ag awydd i amddiffyn neu frolio am eu hardal mewn sgwrs â 'phobl o'r tu allan'.

Roedd elfen economaidd i foddhad. Fodd bynnag, soniwyd am falchder yn bennaf yn nhermau'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â'r mapiau ar gyfer 'personol' a'r 'fro ei hun'. Cyfeiriwyd hefyd at falchder yn yr hunan a'r seilwaith (e.e. y cyngor am ddarparu amwynderau a gweithgareddau). Ni chyfeiriwyd at falchder mewn perthynas â'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â'r map ar gyfer 'yr economi'.

# Ffyniant Bro a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r agenda Ffyniant Bro a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio gwella ansawdd bywyd ar lefel y boblogaeth, gan flaenoriaethu ardaloedd a phobl sydd ag ansawdd bywyd is ar hyn o bryd. Mae'r nodau llesiant yn darparu dehongliad Cymreig o feysydd ffocws er mwyn sicrhau Balchder Bro a Ffyniant Bro ledled Cymru a'r DU.

Mae ein data'n dangos bod pob un o'r saith nod llesiant yn berthnasol i sut mae pobl yn ne-orllewin Cymru yn teimlo am eu hardal, eu bywydau a'u dyfodol.

Mae gan bob ardal awdurdod lleol gynllun llesiant. Ni welwyd unrhyw 'rybuddion' o'r gwaith hwn sy'n awgrymu bod y cynlluniau llesiant yn bell iawn o'r nod.

Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n awgrymu y byddai cynllun llesiant pob awdurdod lleol yn elwa ar gynyddu proffil a rhoi mwy o ystyriaeth i effeithiau twristiaeth. Mae'r sylwadau hyn yn nodi'r gwahanol ffyrdd y mae angen ystyried twristiaeth o fewn cynlluniau llesiant:

"Mae'n anodd pan mae pobl yn dod yma, achos rydyn ni'n cael llawer o dwristiaeth wedyn. Mae pobl yn ymweld achos bod y lle'n dawel a ddim yn rhy fasnachol. Fe fyddwn i'n datblygu'r lle ond yn cadw cydbwysedd, fel nad yw'n colli ei gymeriad."

"Twristiaeth sy'n cadw Penfro i fynd – y caffis a'r siopau. Mae'n dawel fel y bedd yn y gaeaf. Mae angen i ni ganolbwyntio ar greu swyddi y tu hwnt i dwristiaeth."

"Mae gormod o dwristiaeth yn cael effaith negyddol ar y gymuned."

"Mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwthio allan; mae'r ardal yn cael ei boddi."

"Dim ond twristiaid sy'n dod yma o bob cwr o'r byd sy'n gwerthfawrogi'r amgylchedd. Rydyn ni'n anghofio'r harddwch ar garreg ein drws. Rydyn ni'n ei gymryd yn ganiataol."

# Rôl i brifysgolion?

Ychydig iawn o syniad oedd gan y cyfranogwyr o’r hyn y mae prifysgolion yn ei wneud ac, o’r herwydd, ychydig iawn o ddealltwriaeth o sut y gallai prifysgolion ddefnyddio eu hadnoddau a’u hymchwil i wella bywyd ledled y rhanbarth. Roedd angen i’r tîm egluro rôl y brifysgol mewn dysgu, ymchwil a chyflogaeth cyn i bobl gynnig awgrymiadau, a hynny’n betrus yn aml, am sut y gallai prifysgolion fod o fudd i’r rhanbarth.

Gofynnodd y cyfranogwyr i academyddion a’u prifysgolion ystyried y camau ymarferol hyn:

- Dylunio cyrsiau prifysgol byr a sicrhau cyfle i aros mewn neuaddau er mwyn i bobl ag anableddau dysgu allu dysgu arweinyddiaeth a phynciau ymarferol.
- Ymweld ag ystafelloedd dosbarth a chlybiau ieuenctid a chynnig rhagflas preswyl o fywyd prifysgol dros yr haf i bobl ifanc o bob rhan o’r rhanbarth fel rhan o hybu dyheadau a’u gwneud yn ymwybodol o’r ystod o opsiynau gyrfa sydd ar gael.
- Cefnogi pobl LHDTC+ i drefnu digwyddiadau Pride y tu allan i Abertawe.
- Dychwelyd i fod yn sefydliadau dysgu academaidd yn hytrach na gweithredu fel busnesau.
- Darlithoedd i grwpiau cymunedol a chyrsiau byr am ddim mewn canolfannau cymunedol, gan gynnwys cyrsiau byr i wneud iawn am ddiffyg addysg am TG a rhedeg busnes.
- Cynnig prentisiaethau a gwneud pobl ifanc o bob rhan o’r rhanbarth yn ymwybodol o brentisiaethau gradd.
- Gwneud pobl ledled y rhanbarth yn fwy ymwybodol o’r hyn y mae’r prifysgolion yn ei wneud a sut maen nhw’n gallu bod o fudd i gymunedau lleol.
- Rhoi’r wybodaeth i bobl allu caffael grym. Er enghraifft, darparu gwybodaeth academaidd arbenigol a chymorth gyda materion lleol, megis adeiladau rhestredig, y gamlas (Jersey Marine), a chyfraith tai, yn enwedig beth i’w wneud os oes amheuaeth fod perchnogion eiddo yn torri’r gyfraith.
- Cydweithio ag asiantaethau eraill/creu partneriaethau.
- Rhannu arfer gorau.
- Helpu cynghorwyr i fod yn gydgynhyrchwyr yn eu cymunedau.
- Enghreifftiau sy’n seiliedig ar dystiolaeth – annog mwy o gyfranogiad cymunedol.

# Beth sy’n digwydd nesaf?

**Pobl sy’n byw yn ne-orllewin Cymru**

Mae’r cryfder a’r ymrwymiad i’r gymuned leol yn glir. Rydym ni eisiau annog pawb i barhau i weithio dros gymunedau cryf. Mae gan wasanaethau cyhoeddus ddyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori ar bethau sy’n effeithio ar eich bywydau, ond weithiau nid oes ganddynt y sgiliau i wybod sut i estyn allan yn effeithiol i bob rhan o’r gymuned. Gall Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro eich helpu i sicrhau llais effeithiol ynghylch materion lleol. Cysylltwch â’r awduron os hoffech chi gael eich gwahodd i gymryd rhan mewn gwaith yn y dyfodol.

**Llunwyr polisi a chyllidwyr**

Gwerthfawrogi gwybodaeth leol a datblygu ffyrdd o wrando ar groestoriad o bobl leol a gweithio gyda nhw. Mae angen i hyn ddigwydd mewn ffyrdd sy’n caniatáu i bobl siarad ar eu telerau eu hunain a rhannu eu ffordd o wneud synnwyr o’u bywydau, eu cymunedau a’r rhanbarth ehangach. Mae’r adroddiad methodoleg a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cynnig mannau cychwyn ardderchog ar gyfer y daith hon. Cysylltwch â’r awduron i gysylltu â chyfranogwyr a wnaeth awgrymiadau penodol.

**Gweithredwyr**

Bod yn ymwybodol o’r angen i ddatblygu eich rhwydweithiau i sicrhau bod sefydliadau cyhoeddus, preifat, trydydd sector a sefydliadau cymunedol anffurfiol yn gallu datblygu nodau cyffredin a ffyrdd o gydweithio. Chwiliwch am ffyrdd o wasanaethu, annog a chryfhau ymgyrchu cymunedol anffurfiol a chymdeithasau a sefydliadau lleol. Cysylltwch â’r awduron i gysylltu â chyfranogwyr a wnaeth awgrymiadau penodol .

**Academyddion**

Rydym ni’n gobeithio y bydd academyddion a’u prifysgolion yn gallu defnyddio’r adroddiad hwn i lunio a blaenoriaethu ceisiadau ymchwil yn y dyfodol ac i gydnabod y gyfoeth helaeth o wybodaeth sydd ar gael iddynt o du pobl de-orllewin Cymru.

Rydym ni’n cydnabod bod rhai eisoes yn meddu ar yr wybodaeth a’r arbenigedd a allai fynd i’r afael â materion a godwyd gan bobl sy’n byw yn ne-orllewin Cymru. Rydym ni felly’n annog academyddion i sicrhau grantiau symudoli gwybodaeth i allu rhannu eu gwybodaeth a’u harbenigedd gyda phobl fel y rhai a gymerodd ran yn y gweithgaredd gwrando cymunedol hwn. Cysylltwch â’r awduron i gysylltu â chyfranogwyr a wnaeth awgrymiadau penodol.

## Gwella ymgynghori, ymgysylltu a chydgynhyrchu

Mae TiG (grid croestoriadedd) yn datrys un o heriau ymgynghori, ymgysylltu a chydgynhyrchu. Sut mae gwneud yn siŵr bod gennym ni'r amrywiaeth cywir o bobl sy'n meddu ar yr ystod gywir o brofiad bywyd a phrofiad proffesiynol yn yr ystafell? I ddysgu mwy am sut mae TiG yn gweithio ac i drafod a yw TiG yn addas ar gyfer eich cyd-destun chi, cysylltwch â *Chwmni Buddiannau Cymunedol Barod* naill ai drwy eu gwefan (www.barod.org) neu drwy e-bostio bryan@barod.org

Bydd y cysyniad o systemau addasol cymhleth yn anghyfarwydd i lawer. Am gyflwyniad wedi'i gynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, naill ai ewch i wefan *Human. Learning. Systems* (www.humanlearning.systems) neu, os am ffocws ar gydgynhyrchu a chymhlethdod, ewch i https://info.copronet.wales/co-production-involvement-people-centred-practice

## Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol ym Mhrifysgol Abertawe

Mae'r prosiect cymharol fach hwn wedi cadarnhau fod lle rydym ni'n byw ac yn gweithio yn dylanwadu'n drwm ar ein bywydau. Yn ne-orllewin Cymru, mae ein tirlun, ein hanes a'n diwylliant unigryw yn cynnig gobaith a chyfle i rai pobl ond yn gweithredu fel rhwystrau i eraill. Mae hanes yn dangos bod amddifadedd ac anghydraddoldeb cymdeithasol yn parhau mewn rhai mannau, gan effeithio ar genedlaethau o deuluoedd a chymunedau cyfan. Fodd bynnag, mae'n fwy cynnil na hynny: mae nodweddion un gymdogaeth yn gallu cael eu hystyried yn gadarnhaol gan un person ond nid gan berson arall. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn, mae polisi yng Nghymru a'r DU wedi newid yn ddiweddar i gydnabod bod llefydd gwahanol yn aml angen cymorth gwahanol. Mae newid go iawn yn gallu digwydd pan fydd cymunedau'n dod at ei gilydd i ddatrys heriau lleol – newid i ni ein hunain ac i eraill sy'n profi heriau cyffredin ar draws y byd.

Rydym ni'n lansio Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol newydd i helpu i hyrwyddo dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd i gymunedau ledled y rhanbarth. Yn y cam cyntaf hwn, rydym ni eisiau clywed eich syniadau am ein rhanbarth, a sut y dylai'r swyddfa weithredu. Rydym ni eisiau creu sylfaen gadarn i gydweithio tuag at gydgynhyrchu cymunedau cydlynol yn ne-orllewin Cymru.

I ddysgu mwy, ewch i:

https://www.swansea.ac.uk/cy/dyniaethau-a-gwyddoraucymdeithasol/syhl/ (Cymraeg)

https://www.swansea.ac.uk/humanities-and-socialsciences/lcro/ (Saesneg)

# ATODIAD: ADOLYGIAD CYFLYM O DYSTIOLAETH

Defnyddiwyd yr Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth i ddatblygu'r cysyniadau a sbarduno'r dewis o ardaloedd a phobl oedd eu hangen i gymryd rhan yn y gwrando cymunedol er mwyn i'r canfyddiadau roi trosolwg ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Mae un nod i'r adolygiad tystiolaeth: llywio'r dewis o gategorïau a nodweddion ar gyfer y TiG. Byddwn felly'n cyflwyno rhai cysyniadau a chategorïau allweddol fel y daethpwyd ar eu traws yn y llenyddiaeth.

Cyhoeddwyd adolygiad pwysig ac amserol o Falchder Bro yn ddiweddar: Townscapes: Pride in Place (Shaw et al., 2022),


Y canfyddiadau perthnasol a ddewiswyd o'r adolygiad hwn yw:

- Pobl sy'n byw mewn bro yw'r cyfryngau allweddol wrth lunio ei chymeriad, ei ffiniau a'i nodweddion diffiniol.
- Mae unigolion a grwpiau'n creu bro drwy wahanol straeon. Mae hyn yn golygu y gellir cael sawl stori ar gyfer un lle, yn enwedig os yw cymunedau'n cael eu rhannu ar hyd llinellau diwylliant, iaith neu gyfoeth.
- Mae balchder yn un emosiwn sy'n gysylltiedig â bro, ond mae teimladau hefyd o gysylltiad neu ddatgysylltiad, perthyn neu ddieithrio ac ymlyniad neu wahaniad.
- Mae'r amgylchedd adeiledig yn rhan bwysig o berthynas pobl â bro.
- Mae teimladau o alluedd torfol ac unigol yn gysylltiedig â chael gwreiddiau mewn bro.
- Mae teimladau am y gorffennol yn cael eu defnyddio fel ffon fesur o unrhyw ymdeimlad o ddirywiad.
- Mae asedau treftadaeth yn chwarae rhan wrth ddarparu straeon am hunaniaeth bro.
- Mannau lleol yw'r prif le i unigolion a grwpiau fynegi ymdeimlad o werth a phwrpas cymdeithasol cyffredin.
- Mae bro yn bwysig i ddiwylliant a thraddodiad.
- Mae llawer o Falchder Bro mewn cymunedau sydd wedi'u sefydlu ers tro.
- Mae balchder yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol fel lles corfforol a meddyliol, hyder, hunanbarch, gwytnwch a rhyngweithio cymdeithasol.
- Mae balchder ac ymgysylltiad cynhyrchiol o fewn cymunedau o fudd i'w gilydd. O ganlyniad, mae gwirfoddoli, bod yn rhan o benderfyniadau lleol allweddol, perchnogaeth gymunedol a busnesau dan arweiniad y gymuned yn cynyddu'r ymdeimlad o ragolygon bro sy'n annog cyfranogiad ac yn arwain at fwy o falchder yn y fro honno.
- I'r gwrthwyneb, os nad yw pobl yn gallu ymgysylltu â'u cymuned, mae'r balchder yn lleihau ac mae ymgysylltu yn dod yn llai tebygol.

Mae'r datganiadau hyn yn awgrymu bod Balchder Bro yn fwy na rhywbeth sy'n seiliedig ar nodweddion person yn unig. Mae llawer o ryngweithio rhwng y bobl sy'n ffurfio cymuned, a bydd y fro honno yn effeithio ar dwf neu ddirywiad balchder.

Felly, wrth i ni ddewis pobl i siarad am Falchder Bro, mae angen i ni fod yn ymwybodol hefyd o'r fro maent yn byw ynddi.

Mae Peng et al. (2020) wedi ceisio darlunio hyn yn y diagram canlynol:




Mae llawer o gysylltiadau rhwng balchder bro a phriodoleddau cymdeithasol a ffisegol bro. Felly, bydd y pethau sy'n gallu newid neu wella ymdeimlad o falchder yn wahanol o fro i fro. Er ein bod ni felly yn gallu categoreiddio bro yn ôl nifer o briodoleddau, mae'n awgrymu nad yw'r ffaith bod rhywbeth yn gweithio mewn un fro yn golygu y bydd yn gweithio mewn bro arall, hyd yn oed os yw'n rhannu rhai nodweddion, e.e. hen bentref glofaol neu dref glan môr.

O edrych ar un agwedd ar fro, treftadaeth, mae Antink et al. (2020) wedi gwneud rhywfaint o waith ar ddefnyddio asedau treftadaeth i wella bywydau pobl mewn ardal gan ddefnyddio'r syniad o dwf cynhwysol.

Mae'r diagram canlynol yn dangos beth mae twf cynhwysol yn ei olygu a'r rhan y mae parch (= balchder?) yn ei chwarae yn hyn. Mae hefyd yn cysylltu'r targedau twf unigol traddodiadol (incwm/sgiliau/cyflogaeth) â syniadau ehangach o gyfoeth cymunedol a chyfranogiad cymunedol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â balchder yn adolygiad Sefydliad Bennett.




Delwedd seiliedig ar Antik et al., 2019

O adolygu'r llenyddiaeth leol, gan gynnwys cynlluniau llesiant, adolygiadau gwybodaeth a gwerthusiadau o ymyriadau yn seiliedig ar ardal, mae llawer o brosiectau a fydd wedi cyfrannu at wella balchder pobl yn eu bro. Fodd bynnag, mae balchder yn anodd iawn ei fesur (gweler adolygiad Sefydliad Bennett). Wrth i ni gynnal sgyrsiau gyda phobl o wahanol gymunedau, mae'n bosibl y byddwn mewn sefyllfa i weld pa farcwyr sy'n ymddangos ar gyfer balchder. Gall hyn gynnig ambell ffordd i ni nodi a oes unrhyw ymyriadau arfaethedig wedi llwyddo.

## Ffactorau allweddol a nodwyd yn yr adroddiadau sy'n effeithio ar Falchder Bro

- seilwaith
- tai
- trafnidiaeth
- cyfradd troseddau
- sefydliadau addysgol
- y farchnad swyddi
- strydlun
- chwaraeon
- mynediad i fannau gwyrdd
- rhyngddibyniaethau
- treftadaeth a hanes
- iaith
- hygyrchedd (diwylliannol, ffisegol a chymdeithasol)
- cyfryngau lleol
- ymddiriedaeth y cyhoedd

## Gwybodaeth ychwanegol


Antink, B, Cox, E, Cooke, J, Stenning, S, a Locke, N. (2020). *Heritage for Inclusive Growth*. The RSA. Ar gael yn: https://www.thersa.org/globalassets/reports/2020/the-rsa-heritage-for-inclusive-growth.pdf

Collis A (2021). Not Just the Usual Suspects: Designing a new method for public consultation. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor. Ar gael yn: https://research.bangor.ac.uk/portal/en/theses/not-just-the-usual-suspects(eae97035-4f93-4c5f-8e82-fe79eddfc817).html

Peng, I, Stiiker, D, a Wu, Q. (2020). Place Identity: how far have we come in exploring its meanings? *Front. Psycol.* 11:294. doi https://doi.org/10.3389/fpsyg.2020.00294

Shaw, J, Garling, O, a Kenny, M. (2022). *Townscapes. Pride in Place.* Sefydliad Bennett/The Bennett Institute. Ar gael yn: https://www.bennettinstitute.cam.ac.uk/wp-content/uploads/2022/08/Pride-in-Place-Report.pdf